**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

**COFNODION ANGHYFYNGEDIG** y rhith-gyfarfod a gynhaliwyd am 2.00p.m. ddydd Iau 26 Ionawr 2023 yn Vincent House, Quay Place, Birmingham

Yn Bresennol:

| | |
|---|---|
| Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd) | Timothy Llewellyn |
| Justin Albert | Dr Conny Matera Rogers |
| Siwan Davies | Dr Stuart Robb |
| Taya Gibbons | Geraint Roberts |
| Yr Athro Medwin Hughes | Nigel Roberts |
| Uzo Iwobi (drwy Teams) | Dr Liz Siberry |
| Rowland Jones | Emlyn Schiavone (drwy Teams) |
| Arwel Ellis Owen | Dr Peter Spring |
| Victoria Provis | Maria Stedman (drwy Teams) |
| Vanessa Liverpool (drwy Teams) | Deris Williams (drwy Teams) |

Yn gweinyddu:

| | |
|---|---|
| Sarah Clark, Clerc y Cyngor | Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes |
| Dr Andrew Cornish, Prifathro, Coleg Sir Gâr (drwy Teams) | Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol |
| Yr Athro Elena Rodriguez-Falcon, Dirprwy Is-Ganghellor | Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol |
| Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor | Catrin Beard (Cyfieithydd) |
| Iestyn Davies, Pro Is-Ganghellor (ar gyfer eitem 22.55) | Margaret Williams (Ysgrifennydd) |

Cyn y cyfarfod cafwyd cyflwyniadau gan y canlynol ar flaenoriaethau cyfredol i'r Athrofeydd academaidd:

- Pro Is-Ganghellor Barry Liles, Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf Cymru
- Pro Is-Ganghellor Iestyn Davies, yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau
- Yr Athro Wendy Dearing, yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd
- Dr Conny Matera-Rogers, yr Athrofa Dysgu Canol Dinas

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 23.01<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Kerry Tudor. | |
| 23.02<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y Datganiadau o fuddiannau fel y'i nodir yn adroddiad y Clerc (JCO182). | |
| 23.03<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO183).<br><br>Croesawodd y Cadeirydd Timothy Llewellyn i'w gyfarfod cyntaf fel aelod o'r ddau Gyngor.<br><br>Adroddodd y Cadeirydd fod Matthew Peake wedi ymddiswyddo fel aelod y staff anacademaidd o Gyngor PCYDDS ym mis Rhagfyr 2022 a bod paratoadau ar waith am etholiad a disgwylir y canlyniad erbyn cyfarfod mis Mawrth 2023.<br><br>Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar ei ymweliad diweddar â chanolfan alw heibio ym Mlaen-y-maes, Abertawe a chanmolodd waith tîm Ymgyrraedd yn Ehangach yr Adran Farchnata am ei gymorth i'r Ganolfan. | |
| 23.04<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad yr Is-Ganghellor (JCO184).<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at y canlynol:<br><br><u>Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil</u><br>Roedd Cadeirydd y Comisiwn a Chadeirydd y Pwyllgor Ymchwil ac Arloesi wedi cychwyn ar eu dyletswyddau. Roedd gwaith wedi cychwyn ar recriwtio a phenodi'r Prif Swyddog Gweithredol.<br><br><u>Modelu sefydliadol</u> | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Adroddodd yr Is-Ganghellor fod y DIG (Academaidd) wedi cychwyn ar adolygiad o bortffolio a chwricwlwm y Brifysgol. Byddai hi'n canolbwyntio ar gyfoethogi'r arlwy i bobl 18 oed ond ni fyddai hyn yn niweidiol i bortffolio'r "canol coll". Disgwylid y byddai papurau sefyllfa yn barod erbyn diwedd mis Mawrth.<br><br><u>Llyfrgell Genedlaethol Cymru</u><br>Roedd uwch swyddogion y Brifysgol wedi cwrdd ag uwch swyddogion Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar ddechrau mis Ionawr ac wedi datblygu'r gynghrair strategol ymhellach. Roedd trafodaethau wedi cynnwys y potensial ar gyfer sefydlu campysau digidol.<br><br><u>Strwythur cydffederal</u><br>Byddai lansiad ffurfiol y strwythur cydffederal yn cael ei gynnal ar 14 Chwefror 2023 yn y Senedd. Roedd trafodaethau eisoes hefyd wedi eu cynnal gydag ymddiriedolaeth iechyd a oedd yn awyddus i ddod yn bartner cydffederal i'r Brifysgol. | |
| 23.05<br>Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad Undeb y Myfyrwyr (JCO185), a oedd wedi'i gyflwyno fel eitem sefydlog ar yr agenda a chyfeiriodd at faterion profiadau myfyrwyr a gweithgareddau strategol Undeb y Myfyrwyr.<br><br>Gan gyflwyno'r adroddiad, nododd y Llywydd Grŵp yr angen i gael mynediad at adnoddau a ysbrydolai bawb a oedd yn astudio yn y Brifysgol beth bynnag bo eu cefndir. Cyfeiriodd at wythnos sgiliau lwyddiannus gan nodi y byddai hon yn cael ei hymestyn i gynnwys campws Caerdydd yn y dyfodol i sicrhau cydraddoldeb ar draws pob campws.<br><br>Adroddodd Llywydd Campws Caerfyrddin fod ei phrif ymgyrch wedi canolbwyntio ar iechyd meddwl myfyrwyr, yn cynnwys sefydlu sesiynau cysylltu a gweithgareddau'n canolbwyntio ar iechyd meddal a llesiant gan arwain at wythnos ymwybyddiaeth iechyd meddwl ym mis Mai. Hefyd disgrifiodd y gwaith a gyflawnir i gefnogi myfyrwyr gyda'u costau byw a oedd yn cynnwys ymgyrch ynghylch costau llety myfyrwyr. Cyfeiriodd at yr erthygl ar-lein ddiweddar a ganmolai gymorth y Brifysgol i fyfyrwyr yn ystod yr argyfwng costau byw.<br><br>Nododd y Cynghorau y byddai Deris Williams yn cychwyn ei rôl fel llywodraethwr cyswllt gydag Undeb y Myfyrwyr cyn bo hir. | |
| 23.06 | DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad ar y strwythur cydffederal (JCO186). | |

| Rhif y Cofnod | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| Diweddariad ar y Strwythur cydffederal | Adroddodd y PIG ar fanylion lansiad ffurfiol Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru yn y Senedd. Cadarnhaodd fod gwaith ar arlwy’r cwricwlwm yn mynd yn ei flaen a bod partneriaid AB yn ymwneud â’i gilydd ac â’r Brifysgol yn effeithiol wrth archwilio opsiynau o ran darpariaeth y dyfodol.<br><br>DERBYNIODD y Cynghorau gofnodion cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llywodraethu Cydffederal a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 (JCO186a). | |
| 23.07 Strwythur Cydffederal - Gweithred Gymdeithasu | YSTYRIODD y Cynghorau’r Weithred Gymdeithasu ddiwygiedig ar gyfer y strwythur Cydffederal (JCO186b).<br><br>Adroddodd Ysgrifennydd y Brifysgol fod y diwygiadau arfaethedig yn adlewyrchu’r penderfyniad mai’r Drindod Dewi Sant fyddai’r corff dyfarnu yn y lle cyntaf ac felly byddai’n gyfrannog o’r Weithred.  Roeddynt hefyd yn cynnwys terminoleg ddiwygiedig Sefydliadau Technegol Prifysgol Cymru.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau destun y Weithred Gymdeithasu ddiwygiedig, gan nodi bod ymgynghori â’r partneriaid AB ar waith. | |
| 23.08 Cofnodion | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022 (JCO187). | |
| 23.09 Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2023 (JC1088). | |
| 23.10 UWPS Ltd | CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu y dylai’r ddwy Brifysgol dendro am benodi Ymddiriedolwr Proffesiynol sy’n derbyn tâl i Fwrdd UWPS Ltd, gydag argymhelliad i benodi’n cael ei wneud i’r Pwyllgor ac i’r Ddau Gyngor ar yr amser priodol (JCO188a). | |
| 23.11 Datganiadau o fuddiannau | Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 23.12 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Cynhelir y cyfarfod nesaf i gael ei drefnu ar 30 Mawrth 2023. | |